# PEDROG, SANT, fl. yn y 6ed ganrif

**Enw:** Pedrog
**Rhiant:** Clement
**Rhiant:** Glywys
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** SANT
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Hywel David Emanuel

Darganfuwyd y 'fuchedd' lawnaf o'r sant hwn yn ddiweddar yn Gotha, yn yr Almaen. Er mai yn Nyfnaint (Dumnonia) a Llydaw y gwnaeth Pedrog ei waith mwyaf, brodor oedd o Went. Yn ôl ' Buchedd Cadog Sant ' (rhagair) a'r achau sydd ar ddiwedd ei 'fuchedd' ei hun, un o feibion Glywys oedd Pedrog. Ond dywed ' Bonedd y Saint ' (Wade-Evans) mai mab Clement, tywysog o Gernyw, oedd ef. Yn ôl ystori ' Buchedd Cadog Sant,' ymwadodd Pedrog â'i hawl i etifeddu rhan o frenhiniaeth ei dad, a chiliodd i Fodmin yng Nghernyw. Dywed 'Buchedd,' Gotha iddo gael ei ddewis i fod yn etifedd yr holl frenhiniaeth, ac iddo orchfygu goresgyniad y gelyn cyn cofleidio'r bywyd asgetig. Dywedir i Bedrog ymweld ag Iwerddon cyn cartrefu yng Nghernyw. Ef yw un o brif saint Gwlad yr Haf, sir Ddyfnaint, a Chernyw, a choleddir ei goffa yn gyffredinol hefyd yn Llydaw. Yng Nghymru, Pedrog yw nawddsant Llanbedrog yn Sir Gaernarfon, St. Petrox yn Sir Benfro, a'r Ferwig yn Sir Aberteifi. Dethlir ei  yl ar 4 Mehefin.

## Awdur

**Hywel David Emanuel**, (1921 - 1970)

## Ffynonellau


*The Lives of the British Saints*, iv, 94-103

Horstman, *Nova legenda Anglie as collected by John of Tynemouth, John Capgrave, and others, and first printed, with new lives, now re-edited with fresh material from MS and printed sources by C. Horstman* (1901), ii, 317-20

Wade-Evans, *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae* (Caerdydd 1944), 24, 322

G. H. Doble, *Saint Petroc, a Cornish Saint* (1938) (3ydd arg., 1938)

*Antiquity*, 1939, 403-15


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Pedrog

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q534049


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu